Cryfhau partneriaeth gymdeithasol

Strengthening social partnership

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyngor Castell-nedd Port Talbot Astudiaeth Achos o Bartneriaeth Gymdeithasol

Dysgwch sut mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi gwneud gwahaniaeth drwy ei ddull o weithredu partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg.

**Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn falch o'i waith partneriaeth hirsefydlog gyda'i undebau llafur cydnabyddedig, gan ddatblygu atebion arloesol a chreadigol i heriau cyflogaeth.**

Mae'r cyngor a'r undebau llafur yn gweithio'n galed i gynnal y berthynas hon, gan annog aelodaeth o undebau llafur a chadw llinellau cyfathrebu ar agor i dynnu sylw at faterion yn gynnar. Mae gofyn am berthynas sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth, gyda'r cyngor yn barod i gyfathrebu a rhannu gwybodaeth mewn da bryd.

Mae undebau llafur partner yn allweddol i'r gwaith o gyflawni Strategaeth Dyfodol Gwaith (2022-27) Cyngor Castell-nedd Port Talbot. Gan weithio gyda'i gilydd i sicrhau tegwch a thryloywder yn eu dull gweithredu, maent yn siapio gweithlu'r dyfodol ac yn ymgorffori gwaith partneriaeth ystyrlon – yn seiliedig ar barch, ymddiriedaeth a thryloywder – ar draws y sefydliad.

Cyngor Castell-nedd Port Talbot yw'r cyflogwr cyntaf yng Nghymru i ennill statws Partner Datblygu Pobl gan y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD), y corff proffesiynol ar gyfer adnoddau dynol a datblygu pobl. Mae hyn yn cydnabod y cyngor fel sefydliad sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo gwaith a bywyd gwaith gwell.

Dyfarnwyd Gwobr Cyflogwr Chwarae Teg 2023 i'r sefydliad hefyd, i gydnabod ei ymrwymiad i gydraddoldeb rhywedd ac yn benodol ar gyfer gwaith i wella datblygiad gyrfa menywod ar gyflogau isel yn y gweithle. Mae Cynllun Mentora Ment2Be Castell-nedd Port Talbot yn brosiect a gyflawnodd tîm adnoddau dynol y cyngor mewn partneriaeth ag undebau llafur, gyda'r nod o fod yn gam arall tuag at ddileu'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Mae'r cyngor yn falch o fod wedi cyrraedd y rowndiau terfynol yng Ngwobrau CIPD Cymru eleni, yn y categori ar gyfer y tîm adnoddau dynol mewnol gorau.

Mae arweinwyr y cyngor yn gweithio gydag undebau llafur partner i baratoi ar gyfer dechrau'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol newydd ar 1 Ebrill 2024. Mae eu dull gweithredu yn adeiladu ar arferion a chysylltiadau presennol i geisio consensws neu gyfaddawd gyda'u hundebau llafur cydnabyddedig wrth bennu eu hamcanion llesiant a gwneud penderfyniadau o natur strategol i gyflawni'r amcanion hynny o dan adran 3(2) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r bartneriaeth gymdeithasol a'r arferion gwaith teg yn cefnogi uchelgais y cyngor i fod yn gyflogwr delfrydol. Gallwch ddarllen rhagor am y Strategaeth Dyfodol Gwaith (2022-27) www.npt.gov.uk/media/18315/fow_strategy_welsh_final.pdf.



OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG49415,
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg